# Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid – Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Mawrth 2024

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# Hybrid – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(10.50 – 10.55)

### 3.2 SL(6)462 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024

(Tudalen 1)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 – Papur 32 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Mawrth 2024

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(11.05 – 11.10)

### 6.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Grwpiau Rhyngweinidogol

(Tudalennau 2 – 3)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 – Papur 33 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Chwaraeon, 8 Mawrth 2024

LJC(6)-09-24 – Papur 34 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Chwaraeon, 8 Mawrth 2024

## 7 Papurau i'w nodi

(11.10 – 11.15)

### 7.5 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cywiro Offerynnau Statudol Cymru

(Tudalennau 4 – 10)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 – Papur 35 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 7 Mawrth 2024

### 7.6 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

(Tudalennau 11 – 15)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 – Papur 36 – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 8 Mawrth 2024

## 11 Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Adroddiad drafft

(11.35 – 12.00) (Tudalennau 16 – 46)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 – Papur 27 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diwygio rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** |
| **DYDDIAD** | **08 Mawrth 2024** |
| **GAN** | **Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Ymgynghorais ar gynigion i ddiwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd, i fynd i'r afael â dau fater yn y fframwaith rheoleiddio;

- addasu gwasanaethau llety i greu ystafelloedd gwely ychwanegol a chynyddu nifer y lleoedd cofrestredig; a
- gwasanaethau gofal canolraddol sy'n dod i'r amlwg, a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol ac sy'n dod o dan y diffiniad o wasanaeth cartref gofal.

Rwyf yn cyflwyno rheoliadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd unrhyw ddarparwr gwasanaeth llety yn addasu'i eiddo i letya 5 neu ragor o bobl, fod rhaid i unrhyw ystafell wely ychwanegol ac ardaloedd cymunedol y gwasanaeth fodloni'r safonau uwch sy'n ofynnol gan Ran 13 o Reoliadau 2017. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau *en suite* a sicrhau bod yr ystafelloedd gwely ychwanegol o faint priodol, yn ogystal â mannau cymunedol a hygyrch digonol yn yr awyr agored. Bydd hyn yn sicrhau bod gwelliannau yn parhau i gael eu gwneud i'r ystad adeiledig yng Nghymru dros amser.

Rwyf hefyd yn cyflwyno rheoliadau i esemptio gwasanaethau gofal canolraddol a gaiff eu darparu gan awdurdodau lleol rhag gorfod cofrestru yn wasanaeth cartref gofal, ar yr amod bod y gofal a'r cymorth yn cael eu darparu gan wasanaeth cymorth cartref cofrestredig yr awdurdod lleol, bod y llety wedi'i freinio yn yr awdurdod lleol a bod y gwasanaeth wedi'i gyfyngu i 16 o wythnosau ar y tro i unrhyw un unigolyn. Bydd hyn yn cynnal dull cymesur ar gyfer rheoleiddio'r gwasanaethau hyn.

Cyhoeddais **adroddiad** ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ar 30 Hydref 2023.

Eitem 6.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Chwaraeon yn Glasgow** |
| **DYDDIAD** | **08 Mawrth 2024** |
| **GAN** | **Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth** |

Roeddwn mewn Grŵp Rhyng-weinidogol ar Chwaraeon ar 1 Mawrth a gynhaliwyd gan Lywodraeth yr Alban yn Glasgow. Daw y Grŵp â phedwar Gweinidog Chwaraeon y DU ynghyd i gefnogi cydlynnu a rhannu arferion gorau rhwng y gweinyddiaethau datganoleddig a Llywodraeth y DU.

Cadeiriwyd y cyfarfod grŵp hwn gan Maree Todd, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, Lles Meddwl a Chwaraeon, Llywodraeth yr Alban. Hefyd yn bresennol oedd y Gwir Anrhydeddus Stuart Andrews AS, Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Llywodraeth y DU a Gordon Lyons, Gweinidog Cymunedau, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Cafodd y cyfarfod ei gefnogi hefyd gan y pedwar cyngor chwaraeon, gan gynnwys Tanni Grey-Thompson fel Cadeirydd Chwaraeon Cymru, ac UK Sport. Roedd ein trafodaethau yn cynnwys diogelwch ac uniondeb chwaraeon, cynhwysiant ac amrywiaeth mewn arweinyddiaeth chwaraeon, a pharatoadau ar gyfer y Gemau Paraolympaidd ym Mharis eleni.

Roedd y daith hefyd yn cynnwys ymweliad ag Ysgol Haghill, sy’n rhan o Ganolfan Chwaraeon gymunedol yn East End Glasgow, un o gymunedau mwyaf difreintiedig Yr Alban. Roedd yr ymweliad yn arddangos sut y mae Sport Scotland yn gweithio gydag awdurdodau lleol wedi’u targedu, gan gynnwys Cyngor Dinas Glasgow, i ddefnyddio dull seiliedig ar le a dod â'r gymuned a'r partneriaid ynghyd er budd chwaraeon a chyflawni canlyniadau ehangach trwy chwaraeon.

Yn dilyn y cyfarfod, cefais fy ngwahodd gan Lywodraeth yr Alban i fynd i ran o Bencampwriaethau Dan Do Athletau'r Byd yn yr Emirates Arena.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DC/DB/00078/24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

8 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

**Cyfarfod Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer Chwaraeon bob dwy flynedd**

Yn ddiweddar, euthum i gyfarfod y Grŵp Rhyng-weinidogol ar gyfer Chwaraeon bob dwy flynedd ar 1 Mawrth 2024, a gynhaliwyd gan Lywodraeth yr Alban. Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig yn crynhoi'r trafodaethau yn y cyfarfod.

Cynhaliwyd trafodaethau am gyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Chwaraeon a chytunwyd y byddai dyddiad yr Hydref yn addas. Bydd swyddogion adrannol yn cydlynu hyn a byddant yn cael eu cadeirio yn unol â threfniadau cylchdroi'r cadeiryddion. Byddaf yn darparu diweddariad ysgrifenedig ar gyfer y cyfarfod nesaf pan fydd gennym gadarnhad o'r manylion hyn.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/81/2024

Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

7 Mawrth 2024

Annwyl Huw

**CYWIRO OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU**

Yn ystod fy sesiwn dystiolaeth gerbron y Pwyllgor ddydd Llun, 26 Chwefror, roedd y ddau ohonom yn gytûn bod eglurder a thryloywder yn bwysig o ran cywiro Offerynnau Statudol Cymru.

Gyda hynny mewn golwg, rwyf wedi rhoi trefniadau newydd ar waith i sicrhau bod y Senedd yn ymwybodol o unrhyw gywiriadau sy'n cael eu gwneud i offerynnau. Bydd ymatebion y Llywodraeth i adroddiadau craffu'r Pwyllgor yn cynnwys tabl sy'n nodi unrhyw gywiriadau sydd i'w gwneud cyn i offerynnau cadarnhaol drafft gael eu gwneud. Os nad yw amser yn caniatáu i'r tabl gael ei gynnwys yn ymateb y Llywodraeth, bydd Gweinidogion yn ysgrifennu'n unswydd at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth honno. Bydd Gweinidogion hefyd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y newidiadau sydd i'w gwneud yn ystod y ddadl ar yr offeryn yn y Senedd.

Mae'r trefniant newydd hwn wedi bod yn ei le ers yr hydref, ac fe'i ddefnyddiwyd, er enghraifft, yn ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad ar *Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023*. Yn fwy diweddar cafodd ei gynnwys yn ei hymateb i'r adroddiadau ar *Reoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023*, *Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023* a *Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023.* O ran yr offerynnau diweddaraf hynny a ystyriwyd gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd, rwy'n deall fod cynghorydd cyfreithiol y Pwyllgor wedi gwneud sylw ynghylch defnyddioldeb y tabl.

Trafodwyd slipiau cywiro yn y sesiwn dystiolaeth hefyd, ac roeddech o'r farn y dylid delio â'r rhain yn gyflym. Er fy mod yn cytuno â hynny o ran egwyddor, hoffwn sicrhau bod y


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pwyllgor yn ymwybodol fod rhaid i'r Cofrestrydd Offerynnau Statudol roi blaenoriaeth i gofrestru a chyhoeddi deddfwriaeth, felly bydd ei swyddfa yn prosesu slipiau cywiro fel y mae amser yn caniatáu. Yn ogystal a hynny, gall y slipiau hyn gael eu gwneud ar gyfer deddfwriaeth a wnaed ar unrhyw adeg, gan gynnwys deddfwriaeth hŷn.

Efallai y bydd o ddefnydd i'r Pwyllgor nodi bod hysbysiad am slipiau cywiro yn ymddangos ar y dudalen "deddfwriaeth newydd" ar deddfwriaeth.gov.uk fel y cânt eu cyhoeddi – gweler, er enghraifft, y sgrin-lun isod:




Ar y dudalen "deddfwriaeth newydd" ceir nodwedd "Ffrwd Atom" a all ddarparu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor am yr holl ddeddfwriaeth newydd a gyhoeddir ar y safle, gan gynnwys slipiau cywiro. Ond gan nad yw hyn yn dangos gwybodaeth hanesyddol, amgaeaf hefyd dabl sy'n dangos yr holl slipiau cywiro a gyhoeddwyd ar gyfer Offerynnau Statudol Cymru a wnaed ers Ionawr 2020. Mae fy swyddogion wedi gofyn i'r tîm cyhoeddi yn deddfwriaeth.gov.uk a oes ffordd o chwilio'r safle am slipiau cywiro er mwyn helpu Clercod Pwyllgor i ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn y dyfodol.

Os defnyddir deddfwriaeth i gywiro camgymeriad, mynegwyd pryder gennych y gallai'r Pwyllgor ei fethu. Nid wyf yn siŵr a ydw i'n rhannu eich pryder, gan fod yr holl ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Senedd yn cael ei gweld gan eich Pwyllgor. Serch hynny, rwyf wedi gofyn i swyddogion sicrhau bod nodyn yn cael ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol a osodir gyda'r offeryn, os defnyddir deddfwriaeth i gywiro mater sy'n codi mewn deddfwriaeth gynharach.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**SLIPIAU CYWIRO A GYHOEDDWYD AR GYFER OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU A WNAED RHWNG IONAWR 2020 A CHWEFROR 2024**

| **Offerynnau Statudol Cymru** | | **Dyddiad gwneud y Offeryn** | **Dyddiad y slip cywiro** |
|---|---|---|---|
| 2020/110 (Cy. 19) | Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2020 | 31/01/2020 | 19/02/2020 |
| 2020/220 (Cy. 49) | Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2020 | 04/03/2020 | 25/03/2020 |
| 2020/272 (Cy. 64) | Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 2) (Cymru) 2020 | 10/03/2020 | 19/05/2020 |
| 2020/353 (Cy. 80) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 | 26/03/2020 | 06/04/2020 |
| 2020/389 (Cy. 87) | Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2020 | 11/03/2020 | 03/04/2020 |
| 2020/399 (Cy. 88) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 | 03/04/2020 | 20/04/2020 |
| 2020/442 (Cy. 100) | Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 | 21/04/2020 | 04/06/2020 |
| 2020/452 (Cy. 102) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 | 24/04/2020 | 04/06/2020 |
| 2020/479 (Cy. 110) | Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 | 30/04/2020 | 04/06/2020 |
| 2020/555 (Cy. 128) | Rheoliadau’r Cyfrifiad (Cymru) 2020 | 28/05/2020 | 19/10/2020 |
| 2020/606 (Cy. 140) | Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 | 17/06/2020 | 25/02/2021 |

| Offerynnau Statudol Cymru | | Dyddiad gwneud y Offeryn | Dyddiad y slip cywiro |
|---|---|---|---|
| 2020/624 (Cy. 144) | Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 | 22/06/2020 | 03/08/2020 |
| 2020/640 (Cy. 147) | Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 | 25/06/2020 | 16/07/2020 |
| 2020/752 (Cy. 169) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 | 17/07/2020 | 05/08/2020 |
| 2020/1339 (Cy. 296) | Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020 | 23/11/2020 | **Arfaethedig** |
| 2020/1487 (Cy. 317) | Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 | 08/12/2020 | 09/03/2021 |
| 2020/1489 (Cy. 318) | Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Trefniadau Dros Dro) (Coronafeirws) (Cymru) 2020 | 09/12/2020 | 23/02/2021 |
| 2020/1558 (Cy. 329) | Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 | 16/12/2020 | 24/06/2021 |
| 2020/1609 (Cy. 335) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 | 18/12/2020 | 07/10/2021 |
| 2020/1618 (Cy. 339) | Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020 | 21/12/2020 | 09/03/2021 |
| 2021/77 (Cy. 20) | Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 | 21/01/2021 | 23/04/2021 |
| 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) | Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021 | 22/03/2021 | 23/04/2021 |

| Offerynnau Statudol Cymru | | Dyddiad gwneud y Offeryn | Dyddiad y slip cywiro |
|---|---|---|---|
| 2021/399 (Cy. 128) | Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 | 24/03/2021 | 18/05/2021 |
| 2021/502 (Cy. 150) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021 | 23/04/2021 | 07/10/2021 |
| 2021/583 (Cy. 160) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021 | 14/05/2021 | 18/05/2021 |
| 2021/722 (Cy. 183) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021 | 18/06/2021 | 28/06/2021 |
| 2021/862 (Cy. 201) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021 | 16/07/2021 | 04/08/2021 |
| 2021/1063 (Cy. 250) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 | 19/09/2021 | 21/10/2021 |
| 2021/1189 (Cy. 297) | Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 | 25/10/2021 | 09/11/2021 |
| 2021/1212 (Cy. 303) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 | 29/10/2021 | 10/11/2021<br>07/06/2022 |
| 2021/1306 (Cy. 335) | Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu) 2021 | 23/11/2021 | 05/01/2022 |
| 2021/1321 (Cy. 336) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021 | 26/11/2021 | 15/02/2022 |
| 2022/6 (Cy. 4) | Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022 | 07/01/2022 | 12/04/2022<br>30/10/2023 |

| **Offerynnau Statudol Cymru** | | **Dyddiad gwneud y Offeryn** | **Dyddiad y slip cywiro** |
|---|---|---|---|
| 2022/22 (Cy. 10) | Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022 | 07/01/2022 | **Arfaethedig** |
| 2022/79 (Cy. 28) | Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022 | 26/01/2022 | 12/04/2022 |
| 2022/126 (Cy. 41) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022 (dirymwyd) | 10/02/2022 | 12/04/2022 |
| 2022/220 (Cy. 70) | Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2022 | 03/03/2022 | 23/05/2022 |
| 2022/250 (Cy. 76) | Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Cynlluniau Blaendal) (Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru) 2022 | 08/03/2022 | 08/06/2022 |
| 2022/343 (Cy. 85) | Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022 | 21/03/2022 | 30/06/2022 |
| 2022/517 (Cy. 124) | Rheoliadau Addysg (Dirymu Trefniadau Asesu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022 | 08/05/2022 | 17/06/2022 |
| 2022/575 (Cy. 133) | Rheoliadau Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Chyflasynnau Mwg (Addasu Awdurdodiadau) (Cymru) 2022 | 24/05/2022 | 07/07/2022 |
| 2022/722 (Cy. 160) | Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Diwygiadau sy’n Ymwneud â Diystyriadau Disgownt ac Anheddau Esempt) (Cymru) 2022 | 28/06/2022 | **Arfaethedig** |
| 2022/781 (Cy. 170) | Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) 2022 | 15/07/2022 | 09/11/2022 |
| 2022/804 (Cy. 180) | Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2022 | 13/07/2022 | 20/10/2022 |
| 2022/939 (Cy. 203) | Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022 | 05/09/2022 | 21/12/2022 |

| Offerynnau Statudol Cymru | | Dyddiad gwneud y Offeryn | Dyddiad y slip cywiro |
|---|---|---|---|
| 2022/997 (Cy. 213) | Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir etc.) (Diwygio) (Cymru) 2022 | 26/09/2022 | 27/03/2023 |
| 2022/1172 (Cy. 242) | Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022 | 09/11/2022 | 28/06/2023 |
| 2022/1305 (Cy. 262) | Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2022 | 08/12/2022 | 21/07/2023 |
| 2023/72 (Cy. 13) | Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023 | 24/01/2023 | 10/07/2023 |
| 2023/256 (Cy. 35) | Gorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Safle Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru) (Ymadael â'r UE) 2023 | 02/03/2023 | 14/06/2023 |
| 2023/260 (Cy. 37) | Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023 | 02/03/2023 | 16/06/2023 |
| 2023/633 (Cy. 97) | Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2023 | 12/06/2023 | 31/07/2023 |
| 2023/783 (Cy. 124) | Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023 | 07/07/2023 | 23/10/2023 |
| 2023/1349 (Cy. 243) | Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023 | 08/12/2023 | 23/02/2024 |
| 2023/1393 (Cy. 247) | Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 | 14/12/2023 | **Arfaethedig** |
| 2024/37 (Cy. 12) | Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024 | 15/01/2024 | **Arfaethedig** |

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/FM/0609/24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

8 Mawrth 2024

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), a osodwyd mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ('y Bil') ar 26 Ionawr.

Rwyf wedi pwyso a mesur y casgliadau yn eich adroddiad ac mae fy ymateb wedi'i nodi isod. Sylwch, lle rwyf wedi defnyddio cyfeiriadau at gymalau o'r Bil, mae'r rhain yn gyson â'r fersiwn ddiweddaraf, fel y daethpwyd o Dŷ'r Cyffredin, dyddiedig 6 Rhagfyr.

**Cydsyniad deddfwriaethol**
Rwy'n falch bod y Pwyllgor o'r farn bod y rhan fwyaf o'r darpariaethau yng Nghynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o dan Reol Sefydlog 29, ac felly'n gofyn am gydsyniad y Senedd.

Nodaf fod y Pwyllgor yn dal o'r farn nad yw cymalau 74 a 78 (cymalau 54 a 56 fel y'u cyflwynwyd), a hefyd gwelliannau 79 ac 80 sy'n ymwneud â'r cymalau hynny, yn gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, rwyf yn dal o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, i'r graddau y mae'r cymalau hyn yn ymwneud â materion datganoledig gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes.

Yn wir, ar 6 Chwefror ysgrifennodd Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am eu dadansoddiad eu hunain o ran datganoli ar y Rhan hon o'r Bil. Yn flaenorol, roeddent o'r farn bod darpariaethau yn y Rhan hon o'r Bil wedi'u cadw'n ôl o dan y mater a gedwir yn ôl ar gyfer gwasanaethau rhyngrwyd, ac felly nad oedd angen cydsyniad y Senedd. Roedd ei llythyr yn nodi y dylid ceisio cydsyniad dan Ganllawiau ar Ddatganoli Cymru wrth gyflwyno neu osod swyddogaethau a gedwir yn ôl ar awdurdod Cymreig datganoledig. Ychwanegodd, o ganlyniad, er bod Llywodraeth y DU yn credu bod y swyddogaethau hyn wedi'u cadw'n ôl, fod Llywodraeth y DU o'r farn yn awr y dylid ceisio cytundeb ar gyfer cymal 74 a chymal 78(3).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodaf hefyd farn y Pwyllgor y bydd y gwelliannau i'r Bil sy'n ymwneud â'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Cytunaf â'r casgliad hwn, a byddwch wedi gweld fy mod wedi tynnu sylw at bryderon yn ymwneud â'r polisi cyfansoddiadol ym mharagraff 22 yng Nghynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 ynghylch pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (i'r graddau y maent yn ymarferadwy mewn perthynas â Chymru) yn cael eu trosglwyddo oddi wrth Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Ansawdd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol**

Gosodwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol mor agos â phosibl at y cyfnod o bythefnos sy'n ofynnol dan Reol Sefydlog 29.2, a oedd yn cynnwys dadansoddi nifer sylweddol o welliannau mewn cyfnod byr gyda'r bwriad o alluogi craffu amserol. Nodaf bryderon y Pwyllgor ac rwy'n dal wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei chyflawni'n effeithlon.

Mae tensiwn clir rhwng cyfnod o bythefnos a'r gallu i ddarparu gwybodaeth fanwl. Rwy'n ymwybodol o farn feirniadol y Pwyllgor am yr achlysuron hyn pan fydd Llywodraeth Cymru wedi mynd y tu hwnt i'r cyfnod o bythefnos i ddatblygu ymateb manylach.

**Cymalau penodol y Bil, materion y mae dal angen eu trafod, a dynameg rhwng y DU-UE**

Nodaf fod gweddill adroddiad y Pwyllgor yn darparu sylwadau ynghylch cymalau penodol o'r Bil, materion y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried y mae dal angen eu trafod o'r adroddiad cyntaf, yn ogystal â'r ddeinameg rhwng y DU a'r UE. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi cyfres o argymhellion cysylltiedig, ac mae fy ymateb i bob un o'r rhain isod:

| |
|---|
| **Argymhelliad 1** - Yn unol ag argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf, dylai'r Prif Weinidog ddarparu i ni, cyn gynted ag y bo modd, asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ar gyfer y DU gyfan ynghylch datgelu gwybodaeth a'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y Bil.<br><br>**Ymateb:**<br>Mae cymal 74 yn sefydlu porth gwybodaeth newydd ac yn creu pŵer caniataol i awdurdodau cyhoeddus rannu gwybodaeth gyda darparwyr cofrestredig er mwyn darparu gwasanaethau dilysu digidol. Mae cymal 78 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi Cod Ymarfer y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus, sy'n penderfynu rhannu gwybodaeth o dan gymal 74, roi sylw dyledus iddo.<br><br>Yn ôl Llywodraeth y DU, bydd y Cod hwn yn darparu gwybodaeth am y camau angenrheidiol y dylai awdurdodau cyhoeddus eu cymryd wrth rannu data drwy'r porth gwybodaeth. Bydd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol ac yn nodi arferion gorau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys canllawiau ymarferol ar y broses y dylai awdurdodau cyhoeddus ei dilyn wrth rannu gwybodaeth.<br><br>Byddai Cod Ymarfer ar gyfer y DU gyfan yn berthnasol i bob corff cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys y rheini yng Nghymru.<br><br>Mae fy swyddogion yn dal i fod mewn trafodaethau gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau datganoledig y darpariaethau hyn.<br><br>Ar ôl i'r trafodaethau hyn ddod i ben, bydd diweddariad ar y canlyniad yn cael ei ddarparu drwy'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 2.** Yn unol ag argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf, dylai'r Prif Weinidog ddarparu i ni, cyn gynted ag y bo modd, asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig y pwerau i wneud rheoliadau yn Rhan 3 o'r Bil.<br><br>**Ymateb:**<br>Mae Rhan 3, cymalau 85-107 (cymalau 61-77 fel y'u cyflwynwyd) yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a busnesau i wella cluadadwyedd data (Data Clyfar). Mae'r cymalau hyn yn caniatáu ar gyfer rhannu data'n ddiogel, ar gais y cwsmer, gyda darparwyr trydydd parti awdurdodedig (ATP). Byddai'r rhain wedyn yn defnyddio'r data i ddarparu gwasanaethau i'r cwsmer, gan gynnwys newid cyfrif yn awtomatig, cymharu'r farchnad yn benodol i'r cwsmer, a gwasanaethau rheoli cyfrifon. Gall y cwsmer fod yn ddefnyddiwr neu'n fusnes.<br><br>Mae'r cymalau yn Rhan 3 yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys i fynnu bod cyflenwyr (fel y nodir yn y rheoliadau), a phersonau perthnasol eraill, yn rhannu data cwsmeriaid a data busnesau, i gyflwyno cynlluniau Data Clyfar mewn marchnadoedd ar draws yr economi.<br><br>Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, byddai darpariaethau yn Rhan 3 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau a fyddai'n berthnasol i ddarparu cynlluniau Data Clyfar yng Nghymru. Mae hwn yn faes lle mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cytuno bod pwnc datganoledig yn rhan ohono. |
| **Argymhelliad 3.** O ystyried y "pryderon polisi cyfansoddiadol" ynghylch darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol yn y Bil ac yn benodol dychwelyd pwerau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 (i'r graddau y maent yn ymarferadwy o ran Cymru), dylai'r Prif Weinidog uwchgyfeirio'r mater hwn i drafodaethau ar lefel Weinidogol, hyd at a chan gynnwys y gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer datrys anghydfodau, yn hytrach na thrafodaethau ar lefel swyddogol.<br><br>**Ymateb:**<br>Ysgrifennais at Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol ar 23 Ionawr, yn nodi ein pryderon ynghylch dull deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y DU ac effaith darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol ar bwerau Gweinidogion Cymru. |
| **Argymhelliad 4.** Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU – ar lefel swyddogol a Gweinidogol – mewn cysylltiad â'r darpariaethau ar gyfer y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol.<br><br>**Ymateb:**<br>Bydd diweddariad ar ganlyniad y trafodaethau hyn yn cael ei ddarparu drwy broses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. |
| **Argymhelliad 5.** Dylai'r Prif Weinidog roi manylion inni am unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai eu cymryd i unioni'r trosglwyddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy welliant NC42 o bwerau dirprwyedig presennol yn adran 79 o Ddeddf 1991, sydd ar hyn o bryd yn ymarferadwy gan Weinidogion Cymru (i'r graddau y maent yn ymarferadwy o ran Cymru). Dylai manylion o'r fath gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i gyflwyno darpariaethau mewn Bil a fyddai'n ail-ddirprwyo i Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 sy'n cael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol. |

**Ymateb:**
Mae cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer pwnc Rhan 3 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 wedi'i ddatganoli i Gymru. Fel y gŵyr y Senedd, bydd y fersiwn bresennol o'r Bil (o dan gymal 141, gwelliant NC42 yn flaenorol) yn trosglwyddo swyddogaethau gweithredol presennol Gweinidogion Cymru yn y maes hwn fel mai dim ond yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig fydd yn gallu eu hymarfer mewn perthynas â Chymru a Lloegr.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i gyflwyno darpariaethau mewn Bil a fyddai'n ail-ddirprwyo i Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 (sy'n cael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol). Yn y senario hwnnw, gan y byddai darpariaeth o'r fath yn addasu un o swyddogaethau un o Weinidogion y Goron, byddai angen i Weinidogion Cymru ymgynghori â Gweinidog priodol y DU (o dan baragraff 11(2) o Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

---

**Argymhelliad 6.** Yn unol ag argymhelliad 3 yn ein hadroddiad cyntaf, byddem yn croesawu ymrwymiad gan y Prif Weinidog, pan na fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i weithredu cytundebau rhyngwladol, a bod pwerau yn y Bil i wneud hynny'n cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn lle hynny, bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu esboniad manwl mewn unrhyw ddiweddariad i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Ymateb:**
Os bydd hyn yn digwydd, bydd y Senedd yn cael ei diweddaru o unrhyw bwerau sy'n cael eu harfer mewn meysydd datganoledig drwy'r broses arferol.

---

**Argymhelliad 7.** Yn unol ag argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf, dylai'r Prif Weinidog ddarparu i ni, cyn gynted ag y bo modd, asesiad Llywodraeth Cymru o ddarpariaethau'r Bil mewn cysylltiad â hysbysiadau cyfweliadau.

**Ymateb:**
Mae Cymal 41 Hysbysiadau Cyfweliadau (cymal 38 fel y'i cyflwynwyd) yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Diogelu Data 2018 sy'n rhoi pwerau i'r Comisiynydd Gwybodaeth fynnu bod rhai pobl yn dod i gyfweliad, lle mae amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â gofynion penodol Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys esemptiad ar gyfer y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (OfSTED). Fodd bynnag, nid oes esemptiad tebyg wedi'i ddarparu ar gyfer Gweinidogion Cymru, fel rheoleiddiwr y gwasanaethau cyfatebol yma yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel sydd wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn gallu cyhoeddi hysbysiad cyfweliad ar y materion hyn yng Nghymru, ond nid yn Lloegr. Mae hyn yn dal i gael ei drafod ar hyn o bryd.

Bydd diweddariad ar ganlyniad y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cymal hwn yn cael ei ddarparu maes o law drwy broses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

---

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Prif Weinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru wedi cael gan Lywodraeth y DU ei hasesiad risg ar y Bil ac ar golli penderfyniad digonolrwydd presennol y DU. Os yw wedi dod i law ac os yw'r telerau rhannu yn caniatáu, dylid rhannu'r asesiad risg â'r Senedd.

**Ymateb:**
Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael copi o asesiad risg Llywodraeth y DU ar effaith

bosibl y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ar benderfyniad yr UE ar ddigonolrwydd data. Ar 1 Mawrth, ysgrifennodd y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol ataf, gan wrthod ein cais unwaith eto am gopi o asesiad risg Llywodraeth y DU, gan ddweud ei bod yn bwysig bod swyddogion Llywodraeth y DU yn gallu cynnal trafodaethau gonest yn ystod y broses o lunio polisïau.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Prif Weinidog egluro a oes amgylchiadau lle byddai Llywodraeth Cymru yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil er gwaethaf ei phryderon ynghylch y goblygiadau ar gyfer penderfyniad digonolrwydd presennol y DU.


**Ymateb:**
Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, mae ein hargymhellion yn seiliedig ar egwyddorion sy'n cydnabod y gallai fod amgylchiadau synhwyrol a manteisiol i ddarpariaeth gael ei gwneud mewn Bil y DU ar gyfer Cymru. Bydd ein safbwynt terfynol yn cynnwys, fel arfer, ystyried ystod o ffactorau cyfansoddiadol, gwleidyddol, polisïau, a ffactorau eraill. Mae ein hegwyddorion yn cael eu rhoi ar waith yng nghyd-destun trafodaethau sy'n aml yn gymhleth ac yn gyfnewidiol. Rhaid pwyso a mesur gwahanol ffactorau yn yr ymdrech i sicrhau ein hamcanion polisi.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Prif Weinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau ar lefel y DU a'r UE am y Bil, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniad digonolrwydd presennol y DU.

**Ymateb:**
Yn ei llythyr ar 1 Mawrth, dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol fod Llywodraeth y DU wedi bod yn ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd ers dechrau proses ymgynghori'r Bil. Fodd bynnag, gan nad yw digonolrwydd wedi'i ddatganoli, nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hyn.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a'r Cwnsler Cyffredinol. Bydd copi hefyd yn cael ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon